

<b>y Gaer Interpretation Project for Powys CC</b>	
<b>English to Welsh translation request No 26</b>	
<b>Cymraeg</b>	<b>English</b>
<b>Int 346 DL31</b>	
<b>Crud derw</b>	<b>Oak cradle</b>
Mae'r crud derw hwn yn dyddio o ganol y ddeunawfed ganrif. Roedd yn dal yn arfer i rwymo babanod mewn cadachau tynn a'u dodi mewn crud dan flancedi gwlan, gan eu siglo'n egniol ar yr aelwyd. Ond roedd yr arferion hyn yn cael eu herio mwyfwy am nad oedd modd i'r babi ymestyn ei goesau a'i freichiau.	This oak cradle dates from the mid-18 <sup>th</sup> century. It was still the custom for babies to be swaddled in tight clothes and laid in the cradle under woollen blankets, then to be rocked vigorously by the fireside. But these practices were coming under increasing challenge for not letting babies stretch their limbs.
<b>Rhodd Mrs Jenkins, Aberhonddu 693</b>	<b>Gift Mrs Jenkins, Brecon 693</b>
<b>Int 17 DL38/39</b>	
<b>Templed Brithyll</b>	<b>Trout Template</b>
Templed pren yw hwn a wnaethpwyd i gofnodi dal brithyll o gryn faint a ddaliwyd yn Llyn Syfaddan. Arferai Mynachod Abaty Llanddewi Nant Hodni bysgota yn Llyn Syfaddan yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Roedd y llyn yn enwog am ei lisywod a'i bysgod breision yn y gorffennol, ond prin yw brithyll mawr.	This is a wooden template made as a record of a sizeable trout caught in Llan-gors Lake. In the 16 <sup>th</sup> century Llan-gors Lake (Llyn Syfaddan) was fished by the Monks of Llanthony Abbey. Known in the past for its coarse fish and eels, a large trout is a rarity.
<b>Rhodd Mr Davies, Llangors 811.2</b>	<b>Gift Mr Davies, Llan-gors 811.2</b>
<b>Int 83 DL30</b>	
<b>Cloch dân</b>	<b>Fire bell</b>
Defnyddid y gloch hon gan Frigâd Dân Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed ar injan dân o'r 1950au. Fe'i gwnaed o bres gyda thafod y tu mewn ac fe'i siglid â llaw. Parheid defnyddio'r clych yma, a genid ar rannau blaen injans tân, tan y 1970au pan gyflwynwyd clychau electronig, uwch.	This bell was used by the Brecon and Radnor Fire Brigade on a 1950s fire engine. It is made of brass with a clapper inside which was swung by hand. These bells, used on the front of fire engines, remained in use until the 1970s when louder, electric bells were introduced.
<b>Rhodd oddi wrth y Frigâd Dân 569.1</b>	<b>Gift Fire Brigade, 569.1</b>
<b>Int222 DL40</b>	
<b>Tun te</b>	<b>Tea caddy</b>
Roedd tuniau te, fel yr enghraifft wych hon, ag argaen pren collen Ffrengig, yn arwydd o statws cymdeithasol mewn tai cyfoethog Sioraidd yn Sir Frycheiniog. Mae gan y tun hwn o'r ddeunawfed ganrif ddwy ddolen bres, colynnau pres a chlo pres. Mae wedi'i leinio â phapur lliw coch a hufen. Roedd te'n ddrud, felly dyna pam bod angen clo arno. <b>402</b>	Caddies like this fine example, veneered in walnut, were a sign of social status in wealthy Georgian houses in Brecknockshire. This 18 <sup>th</sup> century caddy has two brass handles, brass hinges, and a brass lock and is lined with red and cream paper. Tea was expensive, hence the need for a lock. <b>402</b>

<b>Int223 DL40</b>	
<b>Cadair uchel plentyn</b>	<b>Child's high chair</b>
Mae'r gadair uchel hon, sy'n dyddio o ddiwedd y ddeunawfed ganrif, yn nodweddiadol o'r 'cadeiriau brigau' a wneid ar gyfer bythynnod a phlastai cefn gwlad Cymru. Gan ddefnyddio darnau o bren o siâp naturiol, roedd crefftwr lleol yn cerfio'r sedd a gosod brigau wedi'u llunio ynddi ar gyfer y cefn a'r coesau. Roedd y gwaith caboli'n grefftus ac roedd pob cadair yn unigryw. <b>415</b>	This late 18 <sup>th</sup> century high chair is typical of the 'stick chairs' made for Welsh country homes. Using naturally-shaped pieces of wood, a local craftsman would carve the seat and fit shaped sticks into it for the back and legs. The finishing was skilled and each chair unique. <b>415</b>
<b>Int337 DL26</b>	
<b>Hysbyswrdd Rheilffordd y Cambrian</b>	<b>Cambrian Railways notice</b>
Hysbyswrdd metal o Reilffordd y Cambrian yn rhybuddio y byddai tresmaswyr yn cael eu herlyn. Roedd diogelwch ger rheilffyrdd yn llac iawn yn negawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn Nhal-y-llyn er enghraifft, roedd llwybr yn croesi'r llinell yn union y tu allan i'r orsaf. Unodd Rheilffyrdd y Cambrian â Rheilffyrdd y Great Western ym 1922. <b>Rhoddd oddi wrth Gymdeithas Reilffyrdd Sir Frycheiniog 1102.2</b>	A metal notice from the Cambrian Railways warning that trespass would lead to prosecution. Safety around railway lines was very lax until well into the 20th century. At Talyllyn, for example, a footpath crossed the line just outside the station. The Cambrian Railways amalgamated with the Great Western Railway in 1922. <b>Gift Breconshire Railway Society 1102.2</b>
<b>Int338 DL26</b>	
<b>Signal Rheilffordd Talgarth</b>	<b>Talgarth Railway signal</b>
Signal semaffor metal o orsaf Talgarth. Pwrpas y signal oedd rheoli mynediad trenau i mewn a thrwy'r orsaf reilffordd. Mae gan y signal fraich, sy'n arwyddo stop (llorwedd), neu glir (pan mae wedi'i ollwng). Hefyd mae ganddo oleuadau i'w defnyddio yn y nos, sy'n dangos coch am stop a gwyrdd i olygu clir. <b>1137</b>	A metal semaphore signal from Talgarth station. The purpose of the signal was to control the access of trains into and through the railway station. The signal comprises an arm which indicates stop (horizontal) or clear (dropped), and lights for night use which show red for stop and green for clear. <b>1137</b>
<b>Int350 DL35</b>	
<b>Cefn cadair Farddol</b>	<b>Bardic chair back</b>
Enillodd y Parch. William Griffiths o Ystradgynlais y gadair dderw gerfiedig hon a gwobr o bum punt mewn eisteddfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Farchnad Aberhonddu ar 21 Mai 1906. Testun ei gerdd fuddugol oedd Llyn Syfaddan. Denodd yr eisteddfod dros dair	Rev. William Griffiths of Ystradgynlais won this carved oak chair and a £5 prize at an eisteddfod held at Brecon Market Hall on May 21 <sup>st</sup> 1906. His winning poem was about the lake at Llan-gors. The eisteddfod attracted over 3,000 people and was organised to raise funds to promote the town.

mil o bobl ac fe'i trefnwyd i godi arian i hybu'r dref.	<b>Gift Mr Powell, Llandew</b>	<b>2006.27</b>
<b>Rhodd gan Mr Powell, Llanddew</b>	<b>2006.27</b>	
<b>Int351 DL38</b>		
<b>Bwrdd Coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf</b>	<b>WWI memorial board</b>	
Mae'r bwrdd coffa hwn yn rhestru aelodau Brigâd Llanciau'r Eglwys Aberhonddu a fu farw'n gwasanaethu eu gwlad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Sefydliad ieuenctid Anglicanaidd, a ffurfiwyd ym 1891 oedd Brigâd Llanciau'r Eglwys. Fe drefnwyd y mudiad ar linellau milwrol ac fe gafodd cefnogaeth frwd ledled Sir Frycheiniog am ei weithgareddau niferus.	This memorial board lists members of the Brecon Church Lads Brigade who died serving their country during World War 1. The Church Lads Brigade, founded in 1891, was an Anglican youth organisation structured along military lines. It was well supported throughout Brecknockshire and its activities were numerous.	
<b>Rhodd Miss E Pritchard, Aberhonddu</b>	<b>Bequest Miss E Pritchard, Brecon</b>	<b>1982.65.3</b>
<b>1982.65.3</b>		
<b>Int358 DL46</b>		
<b>Botymau Pres Rheilffordd Aberhonddu a Merthyr</b>	<b>Brecon &amp; Merthyr Railway brass buttons</b>	
Daeth y botymau hyn o wisgoedd gweithwyr Rheilffordd Aberhonddu a Merthyr a fuodd mewn bodolaeth rhwng 1863 tan 1923. Gwnaethpwyd yr enghreifftiau hyn o bres, tra oedd eraill yn cael eu gwneud o gyrn. Roeddent yn hynod o addurnol gan eu bod yn cynnwys injan stêm. Roedd y gwisgoedd yn eu gwneud yn hwylus i'r cyhoedd adnabod y gweithwyr.	These buttons came from uniforms worn by employees of the Brecon and Merthyr Railway, which existed from 1863 to 1923. These examples were made of brass, while others were made of horn, and they were particularly ornate as they include a steam engine. The uniforms helped the public to identify employees.	
<b>Rhodd Mrs Adlesee, Nottingham</b>	<b>2001.38.6</b>	<b>Gift Mrs Adlesee, Nottingham</b>
<b>2001.38.6</b>		<b>2001.38.6</b>
<b>Cyflwynwyd gan:</b>	<b>Liz Bickerton</b>	<b>Dyddiad: 14/07/20</b>
<b>Geiriau: 531</b>		
<b>Cwblhawyd gan: SR</b>		